

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 14eg o Ionawr 2021

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn cofnodion 10fed o Rhagfyr 2021
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
 - Cyllideb 2021-22
 - BDO

7. Materion y Clerc
 - Diffib
 - Septic Tanc Glasinfryn
 - Canolfan Glasinfryn
 - Ceisiadau Nawdd Onibai eu bod angen cael eu ystyried gan yr Is-Bwyllgor Cyllid gyntaf
 - ❖ Goriad
 - ❖ Ambiwylans Awyr Plant
 - ❖ Radio Ysbyty Gwynedd
 - ❖ Cffi
 - ❖ Yr Urdd
 - ❖ Dawns i bawb

8. Materion y Cynghorwyr
 - Cyng B Jones Lon Dywyll
 - Cyng M Baines Cais y ddeintyddfa

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 10fed o Rhagfyr 2020

1. Presennol: Cyngorwyr
D. Jones-Morris; L A James; B.Jones; J. Griffiths; E. Jones; M. Baines; J. Pierce; D. W. Jones; J Lewis a'r Clerc E Jones
2. Ymddiheuriadau:
Cyngorwyr H Griffiths; T A Williams; M. Lynch;
Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cyng D W Jones wnaeth hefyd offrymu g weddi cyn croesawu pawb oedd bresennol.
3. Datgan buddiant
Esbonwyd tae unrhyw un angen datgan buddiant byddai rhaid gwneud hynny ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi ag i'r Cyngorwydd wedyn anfon ffurflen wedi ei llofnodi Mi fu datgan o unrhyw fuddiant
4. Derbyn cofnodion 12fed o Tachwedd 2020 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir *onibai am mae Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol oedd mewn trafodaethau ynglyn a Llwybr Glan Menai yn hytrach na Chyfoeth Naturiol Cymru*
Cyng L A James yn cynnig a Cyng D Jones-Morris yn eilio
5. Materion yn codi o'r cofnodion
 - a. Llwybr Glan Menai – Arwyddion yn dal i fyny ag yn achosi trafferthion i gerddwyr ond y mater yn dal i gael ei drafod rhwng yr Ymddiriedolaeth a Tirfeddianwyr
 - b. Logo Newydd – Y Clerc wedi anfon ebost i'r cyfeiriad oedd wedi ei dderbyn ar gyfer Dafydd Huws Y Shed ond dim ymateb wedi dod yn ol. Y Clerc heb gysylltu a'r Cwmni o Rhos on Sea gan i'r cyngor dymuno cadw'r gwaith yn lleol os yn bosib.
Nodwyd bod yna ferch o Felinheli gydag Oriel yn y pentref allai wneud y gwaith hefyd Cyng L A James am gysylltu a/neu pasio ei rhif cysswllt i'r Clerc
 - c. Septic Tanc Glasinfryn – Clerc wedi cael cyfarfod ar y safle gyda Pensaer lleol oedd wedi awgrymu ein bod yn holi arbennigwr gtda'r math yma o waith Mr William Font Mr Font bellach wedi ymddeol ond yn cymeryd gwaith rhan-amser fel hyn.
Y Clerc wedi cysylltu ond heb glywed dim yn ol hyd yma
6. Materion Ariannol
 - a. 'Roedd drafft o gyfnodion yr Is-Bwyllgor gyllid wedi ei anfon at bawb ynghyd a taenlenni yn dangos anghenion cyllidol y Cyngor ar gyfer 2021-22. 'Roedd yr IBC wedi trafod y taenlenni mewn manylder ac yn **argymhell i'r Cyngor Llawn y byddai angen codi Praesept 2021-22 i £55K** Dyma'r codiad praesept cyntaf ers 2018 **Cafodd yr argymhelliad ei dderbyn yn unfrydol**
 - b. Canolfan Glasinfryn - Cyfreithwyr wedi derbyn teitl y Ganolfan a nodi ei bod yn enw 2 ymddiriedolwyr. **Argymhell ein bod yn newid hynny i enw Cyngor Cymuned Pentir** Nid yw'r trac yn arwain i'r Maes Parcio yn rhan o'r teitl a felly ddim yn gyfrifoldeb y Cyngor er fod hawl tramwyo drosto yn bodoli.
Y Cae lle mae'r septic tanc wedi ei leoli yn enw person arall ond neb yn gwybod yn lle mae'r person bellach.
Angen gosod uchafswm arian i ychwilio i leoliad y person.
Cytunwyd ar swm o ddim mwy na £2K.
Clerc i gysylltu a'r cyfreithwyr i gadarnhau hynny
 - c. Ganolfan Newydd Ymweliadau wedi digwydd a thra bod camau breision wedi eu cymeryd mi oedd pryderon ynglyn a diffyg cyfathrebu. Mynegwyd pryder ynglyn a rhai agweddau o'r cyfarpar trydannol oedd yn cael eu gosod a gwneuthuriad y lloriau yn y neuadd newydd. Gan ein bod yn awyddus i iawn i gael popeth oeddem

fel Cyngor ag ar ran y defnyddwyr ei angen mi fyddai angen talu am y gwaith/offer ychwanegol hynny

- d. Archwilwyr allannol Dim i'w adrodd ymhellach

7. Materion y Clerc

- a. Addysg Ol 16 Yn dilyn e-bost o Adran Moderneiddio Addysg Cyngor Gwynedd 'roedd y Clerc wedi ei basio ymlaen i sylw y Cynghorwyr. Trafodwyd y ffurflen a cytunwyd i ofyn i'r Clerc gysylltu a'r adran i ddatgan cefnogaeth y Cyngor hwn i gadw Addysg Ol 16 yn ein ysgolion Uwchradd.
- b. Diffib Lleoliadau wedi eu adnabod a'r Clerc wedi trefnu ymweliad safle hefo swyddogion o'r adran Trydan Priffyrdd Cyngor Gwynedd ag iddynt drefnu i anfon amcanbris
- c. Cofrestru Septic Tanc Glasinfryn Y Clerc wedi cofrestru tanc Canolfan Glasinfryn hefo Cyfoeth Naturiol Cymru ond ein Cyfreithwyr yn adrodd bod posibilrwydd cryf na fyddai y corff hwnnw yn cadarnhau y gofrestrriad gan fod y gweddillion yn rhedeg i afon.

Camau wedi eu cymeryd i geisio goresgyn y broblem (Cofnodion IBC) uchod

- d. Canolfan Glasinfryn **Eto Cofnodion IBC yn amlinnellu y camau argymhellir gan ein Cyfreithwyr.** Unwaith byddwn wedi cytuno ar ein ffordd ymlaen yna angen cysylltu a pherchnogion yr Hen Eglwys i esbonio na fydd y tanc septic yn weithredol
- e. Ymweliada i a trafodaethau Ganolfan newydd Ymweliadau wedi bod fel nodwyd uchod ynglyn a offer yn y gegin a'r deunydd gorchuddio llawr y Neuadd a'r stafell bwyllgor a pwy fyddai'n rheoli y llwybr tuag at y ganolfan o'r lon fawr. Trefnwyd cyfarfod hefyd hefo Geraint Owen Uwch Reolwr y prosiect wnaeth gadarnhau nad oedd dim wedi newid o'r cynlluniau gwreiddiol ag y byddai'r Ganolfan ar gael i Cyngor Pentir ymhen blwyddyn.

Cadarnhodd fod yr Eglwys yng Nghymru yn rhan o'r trafodaethau ynglyn ag Ysgol y Faenol ond mae prydles rhwng Cyngor Gwynedd a Cyngor Pentir am 99 mlynedd fyddai ein Prydles Newydd

8. Materion y Cynghorwyr

- a. Cyng M Baines
 - Ffens Coed y Maes
Adroddwyd fod trigolion Coed y Maes yn awyddus i ddatgan eu diolch am ddyfal-barhad Cyngor Pentir ynglyn a'r mater yma
 - Stad Goetre Uchaf – Redrow
Gwaith uwchraddio cyflwr y ffyrdd bellach wedi dechra
- b. Cyng J Griffiths
 - Lon Glasinfryn Codwyd y mater o gyflwr y ffordd yn yr 'hen' ran o'r pentref unwaith yn rhagor yn enwedig o dderbyn rhybudd fod Lon Ty'n Llwyn yn mynd i gael ei ail-wynebu yn ystod 2021.
Pwysleisiodd nad is-raddio y gwaith ar y lon honno oedd y bwriad ond yn hytrach bod addewid wedi ei wneud ers sawl blwyddyn i'r trigolion ond y gwaith yn dal heb ei wneud

Clerc a'r Aelod lleol am gysylltu eto hefo'r adran Priffyrdd

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10